



45 munud

## Amcan a Ffocws Cerddorol

Deall seinwedd

## Offerynnau

Oes – edrychwch ar y tabl i weld yr offerynnau a'r dewisiadau eraill ar gyfer defnyddio'r corff fel offeryn taro.

## Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwers yma yn addas i ddisgyblion sydd ag anawsterau clyw.

## Cymhorthion gweledol ac adnoddau eraill

Lluniau o anifeiliaid ac offerynnau – edrychwch ar y tabl i gael rhestr lawn.

# Paratowch eich dosbarth

## Dysgu am Offerynnau

*Mae Lottie, Ben, Mia a'r efeilliaid Ajay ac Akshay yn cael eu cludo i'r goedwig law drofannol lle maen nhw'n dod ar draws y Fonesig Evelyn Glennie.*

*Maen nhw'n dysgu sut mae offerynnau'n gallu gwneud gwahanol sŵn o'r amgylchedd o'u hamgylch ac yn dysgu sut mae teimlo cerddoriaeth yn ogystal â'i chlywed. Mae'r grŵp yn helpu'r Fonesig Evelyn i gasglu cipluniau o anifeiliaid drwy greu sŵn y goedwig law.*

Rhowch eich offerynnau cerddorol mewn twmpath o flaen eich dosbarth.

Sŵn	Offerynnau/Synau Corff
Glaw (i ddenu pryfed genwair)	Offerynnau sŵn glaw/Taro bysedd ar fwrdd
Aderyn	Blociau chwiban, Recorder / Chwiban geg, galwadau adar
Neidr	Cabasa (cadwyni o beli bach) / Sŵn hisian
Llyffant	Guero, Llusgo beiro ar hyd y darn metel sy'n rhwymo llyfr nodiadau / Llais crawcian
Eliffant	Bongo, Drymiau / Stompio traed
Crocodeil	Offerynnau slapio / Ymestyn breichiau ar led a chlapio

Dylai fod gennych chi luniau sy'n gysylltiedig â'r synau sy'n cael eu rhestru uchod - gallai hynny fod ar ffurf anifail neu degan, lluniau neu gyfeiriadau gweledol sy'n cael eu dangos ar sgrin cyfrifiadur neu iPad.





## Ditectif Sŵn

Cyn dechrau'r prif weithgaredd gyda'r dosbarth, archwiliwch pa sŵn mae'r offerynnau uchod yn ei wneud. Pa sŵn anifail mae hyn yn eich atgoffa ohono? Beth allai ei gynrychioli?

Gwyliwch y fideo *Thunder Jam: Rainforests* a chyfateb y synau gyda'r gwrthrychau neu'r lluniau anifeiliaid/tywydd. Gofynnwch i'r dosbarth beth maen nhw wedi'i weld. Ydy hynny'n cyd-fynd â'r synau o'r cyflwyniad?

# 1. Cerdded yn y Jyngl



Yn y gweithgaredd hwn, mae'r dosbarth yn esgus eu bod yn crwydro jyngl yn eu hystafell ddosbarth. Mae'r offerynnau a'r synau uchod yn cynrychioli'r gwahanol anifeiliaid sydd wedi'u cuddio. Ar gyfer pob pennill o'r gân rydych chi neu wirfoddolwr yn chwarae'r offeryn cyfatebol rhywle yn yr ystafell. Gadewch i'r dosbarth adnabod yr offeryn ac o ble mae'n dod.

Wrth ganu/arwyddo gwnewch yn siŵr bod y dosbarth yn gallu eich gweld yn dweud y geiriau ac yn gwneud y symudiadau.



Cân (i dôn *We're Going On a Bear Hunt*; sy'n tanlinellu'r curiadau cerdded cyson):

**Walking in the jungle, walking in the jungle,**  
**We're not afraid, (cam) we're not afraid.**

**Walking in the jungle, walking in the jungle,**  
**We're not afraid, (cam) we're not afraid.**

**1 step, 2 steps, 3 steps forward**  
**1 step, 2 steps, 3 steps back.**

**(Siarad): Shhh, what's that? (Gwrandewch/edrychwch ar y**  
**"glaw" o'r offeryn sŵn glaw neu'r taro)**  
**(Pawb): Ahhh! It's the rain!**



Ailadroddwch yr uchod, ond gan ddefnyddio geiriau a symudiadau, anifeiliaid a synau gwahanol:

- Jumping in the jungle = llyffant (gwrandewch am y guiro/ sŵn crawcian)
- Sliding in the jungle = neidr (gwrandewch am y cabasa neu sŵn 'hisian')
- Stomping in the jungle = eliffant (gwrandewch ar y bongo neu'r sŵn stompio)

Y bennill olaf: cerddwch yn araf ac yn dawel iawn....

- Creeping in the jungle = crocodeil (gwrandewch am y sŵn slapio neu'r clapio)

## Arghh!! It's a crocodile!

Wedyn bydd pawb yn rhedeg i ffwrdd.

## 2. Conga Pryf Genwair!

### Perfformiad drama galw ac ymateb



Fel pobl, mae anifeiliaid yn gwneud synau er mwyn cyfathrebu. Weithiau byddan nhw'n gwneud hynny i ddod o hyd i'w ffrindiau, neu i ddychryn anifeiliaid eraill i ffwrdd.

Yn gyntaf, dewch â phawb at ei gilydd mewn cylch i berfformio synau anifeiliaid/glaw

Chwarae gyda sŵn/gweledol/cyfathrebu:

- Bydd y disgyblion yn ymdroelli fel pryfaid genwair sy'n dod allan o'r pridd pan fydd hi'n glawio (offeryn sŵn glaw)
- Mae adar yn chwibanu i chwilio am ffrind
- Mae neidr yn hisian i ddychryn anifeiliaid eraill i ffwrdd
- Mae eliffantod yn stompio oherwydd eu bod yn drwm
- Mae llyffantod yn crawcian i ddenu cymar. Rhowch gynnig ar gael 'sgwrs' llyffant drwy ddefnyddio synau crawciau a'r guiro
- Mae crocodeilod cyfrwys yn sleifio at eu bwyd, wedyn... snap!



Yn y bennod Thunder Jam, mae'r pryfaid genwair yn dawnsio'r conga - rydyn ni nawr am greu ein cerddoriaeth 'Conga pryf genwair' ein hunain gyda haenau o synau/offerynnau.



Ar gyfer gweithgaredd arall, chwiliwch am luniau i'w lliwio, neu eu creu, o'r anifeiliaid sy'n ymddangos yn y fideo, a thynnwch eich ffotograffau eich hun ar gyfer arddangosfa ar y wal.

Rhannwch y dosbarth yn wahanol adrannau o synau anifeiliaid (grŵp o adar yn trydar, grŵp o nadroedd yn hisian ac ati).

Bydd arweinydd y perfformiad (yr athro i ddechrau, wedyn bydd y rhan hon yn cael ei rhoi i fyfyrwyr eraill) yn chwarae'r drwm neu'n stompio'n uchel i guriad

### 'El-i-ffant, El-i-ffant, El-i-ffant'

Mae'r arweinydd yn nodio ei ben i bob grŵp ymuno â'i sŵn anifeiliaid gyda'r curiad 'El-i-ffant'. Cyflwynwch snapio'r crocodeil yn olaf, a gorffen y perfformiad gyda bwrlwm drwm cyflym!

**Estyniad:** Newidiwch y grwpiau anifeiliaid a dechrau'r conga eto, tro yma ychwanegwch newidiadau mewn tempo (cyflymder) a deinameg (lefel y sŵn).

## 3. Diwedd y Wers

Gofynnwch i'r dosbarth:

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau?
- Pa sŵn neu anifail ydych chi'n ei hoffi fwyaf?

Mae hyn yn gwneud iddyn nhw fyfyrion, rhannu gwybodaeth, a deall yr iaith a gafodd ei defnyddio yn ystod y wers.

